

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 8fed o Tachwedd 2018

Yng Nghanolfan Gymunedol GLASINFRYN am 7pm.

Agenda

Gweddi

Presennol / Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion 4ydd o Hydref 2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid 31ain o Hydref

- Adroddiad ariannol
- TAW
- Ceisiadau Ad 137
 - Goriad Manolen wedi dod 7/11/18
 - Llais Ogwan Manolen wedi dod 6/11/18
- Archwilwyr Allannol
- **Trefniadau gadael y Swyddfa**
- **Digwyddiad y fynwent**

Ceisiadau Cynllunio diweddard ardal Pentir

Materion y Clerc

Gohebiaethau

1. Lon Glan Mor / Llwybr yr arfordir
2. Mapio Diffibs

Adroddiadau

- Binau Halen
- Datblygiad Ysgol y Faenol
 - Ymatebion
- Gamlins

Materion y Cynghorwyr

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Iau 4^{ydd} o Hydref 2018 yn Parc Menai am 7pm

Presennol:

Y Cyng. - D. W. Jones. - R. Jones. - H Griffiths - L. James - J Pierce, - C. E. Hughes - B Jones, - T Anwyl-Williams – M. Lynch a M. Baines

E Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng, D Jones-Morris, a J. Griffiths

Cadeirwyd ag offrymwyd gweddi gan y Cyng C E Hughes.

Diolchwyd i'r Is Gadeirydd Cyng Richard T Jones am gadeirio'r cyfarfod olaf yn ei absenoldeb.

Cod Ymddygiad

Yn ol yr arfer atgoffwyd pawb o'i dyletswydd i ddatgan unrhyw fuddiant personol a chwblhau y ffurflenni priodol

Cofnodion 13eg o Fedi 2018

Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir ar gynnig Cyng D W Jones a eilwyd gan Cyng J Pierce

Materion yn codi o'r cofnodion

Arwyddion llwybrau Ty'n Ffridd wedi ei osod. Ansirwydd os oedd y gweddi.

Dim gwybodaeth bellach am ddatblygiadau ar y safle.

Ariannol

Llythyr wedi ei anfon at Llais Ogwan yn gofyn am fantolen gyfredol – Dim ymateb yn ol hyd yma, ond yn Tachwedd anfonwyd rhodd atynt yn 2017

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid 26ain o Fedi

- Adroddiad ariannol Dosbarthwyd mantolen ariannol gyda'r cofnodion yn dangos gwariant ag incwm y mis
- TAW Tra nad oedd ad-daliad wedi cyrraedd – 'roedd e-bost wedi dod yn hawlio swm £2927.04 am y flwyddyn ariannol 2017-18
- Ceisiadau Ad 137
 - Llais Ogwan Fel nodwyd uchod dim ymateb yn ol eto i'n cais am fantolen gyfredol
 - Seintiau Bangor Cymeradwyo'r argymhelliad i gyfrannu £300 iddynt
- Archwilwyr Allannol Dim ymateb wedi dod yn ol gan BDO ond teimlad fod rhain yn llusgo traed braidd ag yn codi mater llythyr at Archwilydd Mewnnol o 2015-16 pan nad oedd wedi ei godi yn 2016-17.

Cytuno i gadeirydd yr Is-Bwyllgor Cyllid anfon atynt yn amlinnellu ei anfonlonrwydd

- Is Bwyllgor asedau

Yn sgil trafferthion cael cynrychiolaeth yn mynychu ers rhai misoedd bellach 'roedd yr Is-Bwyllgor Cyllid yn argymhell ein bod yn diddymu yr Is-bwyllgor asedau tan diwedd y flwyddyn ariannol yma

Cytunwyd yn unfrydol

- Telerau y Fynwent 'Roedd cymharu telerau gyda Cyngor Gwynedd a Cynghorau Cymuned agosaf atom wedi cymeryd lle ag er mwyn hwyluso gwaith y Clerc argymhellwyd ein bod yn dilyn prisiau Cyngor Cymuned Llanrug

Cafodd yr argymhelliad ei gymeradwyo

Clerc i drefnu ffurflen Telerau newydd a'i anfon at yr ymgymerydd

- **Prydles y Swyddfa a'i argymhellion** Yn dilyn cyfarfod Colin Williams a'i reolwr llinell o Llywodraeth Cymru ar yr 11eg o Fedi amlinnellwyd yr opsiynau roddwyd gerbron y Clerc a'r Cyng Lowri James.

Yn dilyn o hynny a chyfarfod o'r Is-bwyllgor Cyllid cytunwyd i ddod a chyfarfod o'r Cyngor Llawn ymlaen wythnos, sef i heno, gan fod ein Prydles ar Uned 15 yn dod i ben wythnos i heno 11eg o Hydref

Argymhelliad yr IBC oedd ein bod yn peidio adnewyddu y brydles.

Rhesymwyd y byddem yn arbed oddeutu £10K y flwyddyn allai gael ei neilltuo tuag at gostau adeiladu Canolfan Gymunedol newydd yn Ysgol Y Faenol os bydd y cynllun hwnnw yn dod i fodolaeth.

Cafodd yr argymhelliad ei gymeradwyo yn unfrydol

Golygai hyn mae wythnos yn unig oedd gennym i ddarganfod storfa newydd gan fod gennym fannau cyfarfod yn ein dwy ganolfan ag Eglwys Sant Pedr yn Penrhos tae angen.

Ers cyfarfod yr Is-bwyllgor Cyllid 'roedd ymholiadau wedi ei gwneud fel Lockstock oedd ddim yn barod yn Llandegai – Caban ar dir Canolfan Penrhos fyddai yn cymeryd mwy o amser nag oedd gennym - y Capel yn y Fynwent a Storfa oedd yn digwydd bod yn wag yn Neuadd bentref Rhiwlas Opsiynau realistig

1. Capel bach - fyddai yn gwneud dros dro, ond dros dro yn unig, oherwydd diffyg gwres tamprwydd
2. Storfa Neuadd Rhiwlas - allai storio popeth ond o bosib byddai cost
3. Cyng R Jones yn cynnig i ni ystyried Storfa oedd yng Nghanolfan Penrhos ond byddai angen ei chlirio

Cytunwyd i'r Clerc gychwyn wrth edrych ar y storfa honno a wedyn ystyried y gweddill

Gofynnwyd i'r Clerc drefnu yr arbrofion angenreidiol a chysylltu a Colin Williams i ddatgan ein penderfyniad

Cytunwyd y byddai ein Cyngor Llawn nesaf yn cael ei gynnal ar yr 8fed o Dachwedd yng Nghanolfan Gymunedol Glasinfryn

Cyng H Griffiths am drefnu y llogiad

Adroddiad Is Bwyllgor Asedau 20-09-18

Gan nad oedd digon yn bresennol i gynnal Cyfarfod ffurfiol adroddwyd ar lafar yr hyn drafodwyd ar y noson.

1. Twll wrth draed un o'r beddi yn y fynwent newydd. Clerc wedi trefnu cau y twll a chytuno i fonitro am gyfnod o amser
2. Tir meddal wrth droed y wal gerrig. Adroddwyd fod tyrchod yn y fynwent a'r tebygolrwydd oedd mae twneli tyrchod oedd yn gyfrifol am y broblem wrth fón y cloddiau. Clerc i drefnu cael dyn diffa pla i gael gwared a'r tyrchod.

Ceisiadau Cynllunio Cais Rhif C18?0632?25/LL Cais ol weithredol Tan y Bryn Rhyd y Groes i gadw adeilad ar gyfer storfa gymysg amaethyddolo a domestig **Gwrthwynebu**

- Biniau Halen Wedi cadarnhau bod y Cyngor yn ymrwymo mewn partneriaeth a Chyngor Gwynedd i gyflenwi y biniau presennol a chytuno ar nifer o finiau ychwanegol tae prisiau rheini yn dderbynniol (Dim pris wedi ei dderbyn)
- Prydles Canolfan Penrhos Y Clerc wedi derbyn 01-10-18 fersiynau electronig o delerau diwygiedig am brydles ar gyfer y ganolfan bresennol, ynghyd a chytundeb am brydles ar safle'r Ysgol. **Clerc wedi eu pasio ymlaen i'r Cyfreithwyr am eu sylwadau cyfreithiol**
- Datblygiad Ysgol y Faenol
Y broses ymgynghori wedi cychwyn a dwy noson agored wedi eu trefnu ar gyfer 9fed a'r 10fed o Hydref. 'Roedd Cyng L James wedi bod yn cyd-weithio a Cyngor Gwynedd i ddarparu pamphled ar gyfer ymgynghori yr ochr gymunedol o'r prosiect a cafwyd cyfle i edrych dros y gwaith hwnnw. Yn gyffredinol cafodd y pamphled sél bendith y Cyngor a diolchwyd i'r Cyng James am ei gwaith trylwyr arferol.
- Gamlins Prydlesi electronig wedi eu anfon ers tridia at y Cwmni
Wrth iddynt, ar ein rhan, edrych dros gofnodion a chyfrifon ein dwy Ganolfan ag yn sgil swm cyfrifon Canolfan Penrhos holwyd os mae unigolyn yntau Cwmni oedd yn archwyllo'r cyfrifon hynny.

Cadarnhaodd Cyng R Jones mae, unigolyn gyda'r Cymhwyster priodol ,oedd eu archwylwr.

Materion y Cyngorwyr

Cyng C E Hughes yn adrodd iddo fod wedi mynychu un o'i cyfarfodydd gan adrodd fod y grwp yn gefnogol o waith y Cyngor ag yn gwerthfawrogi ein gwaith yn cefnogi'r gymuned. Maent yn awyddus i ni gefnogi eu ymdrechion i gael sribedi coch ar y rhan 50mya ar y A4244 fyddai wedyn yn golygu y gallai'r cerbyd gor-yrru weithredu ar y ffordd.

Clerc i gysylltu a Gwynedd

Cyng M Baines yn datgan ei bod wedi gwrthwynebu cais cynllunio Coed y Wern ond hefyd ei bod wedi derbyn cwyn fod coed yn gwiro dros y ffordd ar y lleoliad yma

Clerc i gysylltu a Gwynedd

Cyng R Jones yn datgan ei anfodlonrwydd nad yw ein Gwefan yn gyfredol ers rhai misoedd ag fod angen datrys hynny mor fuan a phosib.

Pwysleisiodd tra'i fod yn sylweddoli mae'r Cyng L James oedd yn y gorffennol wedi ymgymeryd a'r gwaith o basio'r wybodaeth ymlaen i Delwedd nid barnu Cyng James oedd ei fwriad.

Gofynnwyd yn garedig i'r Cyng T A Williams yn ol yr arfer i drefnu cinio Nadolig

Daeth y Cyfarfod i ben 9.25